# Dewis Cymraeg. Dewis Dyfodol.

## Beth yw addysg cyfrwng Cymraeg?

Efallai nad ydych wedi ystyried ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r blaen. Felly beth maen nhw'n ei gynnig i'ch plentyn?

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu **trochi llwyr** yn yr iaith Gymraeg. Anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol y diwrnod ysgol a dysgir gwersi yn ddwyieithog.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn **dathlu bod yn amlieithog**, ac yn rhoi cyfle i blant dyfu i fyny gyda chymaint o sgiliau â phosibl.

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir bob dydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac addysgir Saesneg hefyd fel iaith gyntaf ym mhob oedran ar ôl y cyfnod sylfaen.

Mae plant sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn rhugl yn y **Gymraeg a'r Saesneg**, ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r **ddwy iaith** ar draws y cwricwlwm. Profwyd mai hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu ieithoedd.

Mae **94% o ddisgyblion** mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd yn dod o **deuluoedd di-Gymraeg**.

Gyda rhieni sydd ddim yn siarad Cymraeg yn y mwyafrif, mae ysgolion yn, **darparu popeth yn Gymraeg ac yn Saesneg**. Mae ysgolion yng Nghasnewydd hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd nad yw eu hiaith yn Gymraeg nac yn Saesneg.



NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

MENTER IAITH CASNEWYDD

# Dewis Cymraeg. Dewis Dyfodol.

## A oes manteision anfon fy mhlentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg?

Mae ‘na digon o fudd mewn anfon plant i ysgolion Cymraeg. Daw’r manteision hyn gyda bod yn rhan o gymuned ysgol sy’n dathlu dysgu ieithoedd.

Mae plant yn **ffynnu** wrth ddysgu a chwarae yn y ddwy iaith.

Mae siarad dwy iaith wahanol yn ifanc yn helpu wrth **lunio’r ymennydd**. Mae hyn yn datblygu’r gallu i ddysgu, **datrys problemau**, y **cof** a sgiliau eraill yn ddiweddarach. *(Children with two languages excel at school, Rosemary Bennett, Golygydd Addysg, 11 Ebrill 2017, The Times).*

Wrth siarad dwy iaith, mae plant ymgyfarwyddo ag **amrywiaeth** a diwylliannau gwahanol. *(What’s Going on Inside the Brain of a Bilingual Child? Anya Kamenetz 30 Tachwedd, 2016)*

Rydych chi hefyd yn **fwy tebygol** o **gael gradd** a chael swyddi o’r radd flaenaf fel meddygon, na phobl sydd methu siarad Cymraeg.

**Profiad Shereen**

**“Rydych yn cychwyn ar daith gyda’ch gilydd. Mae ysgolion bob amser yn gefnogol, gan anfon popeth yn ôl atoch yn ddwyieithog. Mae cefnogaeth bob amser y gallwch chi ddibynnu arno!”**



NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

MENTER IAITH CASNEWYDD

# Dewis Cymraeg. Dewis Dyfodol.

## Pa ysgolion cyfrwng Cymraeg y gallaf eu dewis?

Agorodd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg **newydd sbon, Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli** ym mis Medi 2021 ar hen safle Ysgol Fabanod Lodge Hill Caerllion. Fel egin ysgol i ddechrau oedd hyn.  Ym mis Ebrill 2025bydd yr ysgol yn trosglwyddo i safle  sydd newydd ei adnewyddu lle mae ysgol gynradd Pilgwenlli ar hyn o bryd.

Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli fydd yr ysgol gyntaf i gynnwys **Canolfan Adnoddau Dysgu** bwrpasol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd hefyd yn cynnwys uned drochi bwrpasol, sy'n caniatáu i blant o ysgolion  cyfrwng Saesneg ddilyn trywydd carlam ar gyfer dysgu'r Gymraeg i ddechrau  addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae llawer o gyfleoedd newydd yn yr ysgol **Gymraeg newydd** i ddarparu **cefnogaeth gymunedol** yng nghalon Pill, fel **darparu gwersi Cymraeg** i rieni.

### Am fwy o wybodaeth ar ysgolion cynradd penodol:

**Ysgol Gymraeg Casnewydd**
01633 290270 @YsgolGCasnewydd

**Ysgol Gymraeg Ifor Hael**
01633 414694 @IforHael

**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
01633 850804 @BroTeyrnon

**Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli**
01633 414698 @NantGwenlli